
**Rhif**: **5.6**

**Rhif y Cais / Application Number : C16/0371/14/LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**





Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey
gyda chaniatâd yr Ordnance Survey
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron.
Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri
hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2006

This map is reproduced from Ordnance Survey material
with the permission of Ordnance Survey
on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown copyright.
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright
and may lead to prosecution or civil proceedings.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2006

| | |
|---|---|
| Cais Rhif: | C16/0371/14/LL |
| Dyddiad Cofrestru: | 05/04/2016 |
| Math y Cais*:* | Llawn - Cynllunio |
| Cymuned*:* | Caernarfon |
| Ward: | Seiont |
| Bwriad: | CODI SIED AMAETHYDDOL AR GYFER GWARTHEG GODRO YNGHYD A BAE SILWAIR |
| Lleoliad: | FFERM HENDY, FFORDD PANT, CAERNARFON, LL545RL |

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** CANIATAU GYDAG AMODAU.

## 1. Disgrifiad:

1.1 Cais llawn yw hwn ar gyfer codi sied amaethyddol ar ddaliad amaethyddol fferm yr Hendy i'r de o Gaernarfon. Bwriedir codi sied 61m o hyd, 20m o led gydag uchder o 6.7m i'r crib ar lecyn o dir sy'n gyfochrog i adeiladwaith presennol y daliad a bydd y bwriad yn golygu ail-leoli oddeutu 60m o glawdd presennol gan greu clawdd newydd o amgylch y sied arfaethedig. Yn fewnol, bydd y sied yn cynnwys llaethdy newydd, parlwr godro, storfa lefrith, cyfarpar offer a chyfleusterau trin gwartheg.

1.2 Yn allanol, bydd y sied o wneuthuriad llenni proffil dur i'r to, rhannau uwch o'r waliau yn lleiniau o goedyn ar ffurf Efrog (*Yorkshire boarding*) a'r rhannau isaf o floc llwyd. Bydd 3 agoriad ar dalcen gogleddol y sied gydag agoriadau eraill ar hyd ochrau'r sied.

1.3 Gwasanaethir y daliad gan rodfa breifat a ffordd sirol dosbarth III Ffordd Pant. Mae llwybr cyhoeddus rhif 16 Caernarfon yn rhedeg gerllaw ochr gorllewinol y sied arfaethedig. I'r gogledd o'r safle lleolir adeiladwaith presennol y daliad ynghyd a'r ffermdy, i'r dwyrain lleolir cae agored gyda choedlan ar lwyfandir ymhellach draw, i'r de lleolir caeau a chloddiau rhyngddynt ynghyd a'r eiddo Tŷ'r Allt, i'r gorllewin lleolir adeiladwaith niferus ac amrywiol y daliad sydd hefyd yn cynnwys cronfa ddŵr ynghyd a chlamp silwair newydd a ganiatawyd yn ddiweddar.

1.4 Byddai caniatáu'r cais yn galluogi'r ymgeisydd cynyddu'r fuches bresennol (sydd yn cynnwys 360 o wartheg godro) ynghyd a lleihau'r amser wrth odro'r fuches o 4 awr i 2 awr y diwrnod. Ni fydd cynyddu'r fuches yn golygu cynnydd yn y niferoedd o loriau tancer sy'n trosglwyddo'r llefrith gan y buasai defnydd mwy effeithiol yn cael ei wneud o gapasiti'r loriau eu hunain.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu

diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni’r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

2.3 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (CDUG) 2009:**

POLISI B21 - CORIDORAU BYWYD GWYLLT, CYSYLLTIADAU CYNEFINOEDD A CHERRIG ‘SARN’
Diogelu cyfanrwydd nodweddion tirwedd sy’n bwysig ar gyfer fflora a ffawna gwyllt oni bai bod rhesymau dros y datblygiad yn gorbwyso’r angen i gynnal y nodweddion ac y gellir darparu mesurau lliniaru.

POLISI B22 - DYLUNIAD ADEILADAU
Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a’r amgylchedd lleol.

POLISI B23 - MWYNDERAU
Diogelu mwynderau’r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau’r ardal leol.

POLISI B25 – DEUNYDDIAU ADEILADU
Gwarchodir cymeriad gweledol ardal y Cynllun trwy sicrhau mai dim ond llechi Cymreig naturiol neu lechi sy’n debyg o ran edrychiad, lliw a nodweddion hindreulio fydd yn cael eu caniatáu ar doi, ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae’r math o adeilad neu ei leoliad penodol, neu’r manteision o ran cynaliadwyedd yn golygu y byddai deunydd arall yn briodol. Ar gyfer rhannau eraill o adeiladau, disgwylir defnyddio deunyddiau adeiladu o safon uchel sy’n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol. Gwrthodir cynigion fydd yn arwain at gyflwyno deunyddiau sy’n israddol neu’n ymwthiol.

POLISI B33 - DATBLYGIADAU SY’N CREU LLYGREDD NEU BOENDOD
Diogelu amwynderau dynol, ansawdd iechyd a’r amgylchedd naturiol neu adeiledig rhag lefelau uchel o lygredd.

POLISI D9 - ADEILADAU AC ADEILADWEITHIAU FFERM
Caniatáu codi adeiladau ac adeiladweithiau ar gyfer dibenion amaethyddol os ydynt yn rhesymol angenrheidiol at ddibenion amaethyddiaeth ac os gellir cydymffurfio gyda meini prawf yn ymwneud gydag effaith y datblygiad ar nodweddion cydnabyddedig.

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 6 Cynllunio ar Gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010).

NCT 12 Dylunio (2016).

Polisi Cynllunio Cymru (2016) Fersiwn8.

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Cais rhif C16/0373/14/LL - creu clamp silwair wedi ei ganiatáu ym Mai, 2016.

3.2 Cais rhif C12/1128/14/LL - creu morlyn ar gyfer storio slyri gwartheg ac estyniad to un-codiad i gadw teil sych wedi ei ganiatáu yn Chwefror, 2013.

3.3 Cais rhif C11/0053/14/LL - estyniad i sied amaethyddol wedi ei ganiatáu yn Chwefror, 2011.

## 4. Ymgynghoriadau:

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Cefnogi. |
| Uned Llwybrau: | Angen sicrhau bod llwybr cyhoeddus rhif 16 Caernarfon yn cael ei warchod yn ystod ag ar ôl y gwaith adeiladau. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Cyfeirio at y ddeddfwriaeth berthnasol sy’n rheoli'r math yma o ddatblygiad. |
| Uned Bioamrywiaeth: | Dim gwrthwynebiad ond yn amodol bod y clawdd yn cael ei ddymchwel y tu allan i’r cyfnod nythu. |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Dim ymateb. |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae’r cyfnod hysbysebu eisoes wedi dod i ben ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan y cyhoedd yn dilyn y cyfnod hysbysu statudol. |

## 5. Asesiad o’r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### Egwyddor y datblygiad

5.1 Mae’r egwyddor o godi adeiladau amaethyddol wedi ei selio ym Mholisi D9 o GDUG sy’n datgan caniateir y fath gynigion os ydynt yn rhesymol angenrheidiol at ddibenion amaethyddiaeth ac os gellir cydymffurfio gyda nifer o feini prawf sy’n ymwneud a bod y safle’n agos at adeiladau amaethyddol presennol, na fydd y datblygiad yn achosi dirfod arwyddocaol i adeilad a warchodir ac na fydd y datblygiad yn niweidio bioamrywiaeth a bod y bwriad yn cynnwys mesurau lliniaru amgylcheddol digonol. Ar sail y wybodaeth gyda’r cais a’i leoliad ystyrir fod yr egwyddor yn dderbyniol.

### Mwynderau gweledol

5.2 Mae safle’r sied amaethyddol wedi ei leoli yng nghefn gwlad ond gyferbyn ac adeiladwaith niferus presennol y daliad amaethyddol. Bydd unrhyw olygfa ohono’n ysbeidiol a chyfyngedig ac o bellter a hynny ar hyd y ffordd sirol Ffordd Pant sy’n rhedeg i gyfeiriad deheuol o’r sied ei hun. Mae wedi ei sgrinio gan lwyfandir a choedlan arno ynghyd a chloddiau o’r dwyrain ynghyd a thirwedd donnog sy’n nodweddiadol o’r tirlun lleol. Bydd effaith gweledol y sied hefyd yn cael ei leihau gan fod yr adeiladwaith presennol sydd o’i amgylch yn gefnlen iddo ynghyd a chodi clawdd newydd er mwyn digolledu’r clawdd presennol. Bydd y sied, fodd bynnag, yn amlwg o’r llwybr troed cyhoeddus sy’n ymlwybro drwy iard y fferm ond bydd rhaid ystyried ei effaith weledol leol o fewn cyd-destun adeiladwaith presennol y daliad a chredir na fydd yn creu ad-drawiad sylweddol mwy na’r hyn sydd eisoes yn bodoli. Rhaid cofio hefyd fod hon yn ddaliad amaethyddol sefydledig sydd yn

parhau i ddatblygu er mwyn bod yn llewyrchus. I'r perwyl hyn, felly, credir bod y bwriad yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi B22, B23, B25 a D9 o GDUG ynghyd a'r cyngor a gynhwysir yn NCT 6 Cynllunio ar Gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy a NCT 12 Dylunio.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.3 Mae anheddau preswyl wedi eu lleoli ar wasgar o amgylch y daliad ei hun. Lleolir yr annedd agosaf i safle'r sied oddeutu 174m i'r de-ddwyrain (Tŷ'r Allt) gyda Bwthyn Hendy wedi ei leoli oddeutu 403m i'r dwyrain gyda chaeau amaethyddol a thirwedd donnog rhyngddynt sy'n cynnwys cloddiau a choedlannau sefydledig. Gan ystyried y pellter yma sydd rhwng y sied amaethyddol a'r anheddau hyn yn ogystal â'r anheddau eraill sydd wedi eu lleoli yn nalgylch y daliad amaethyddol, gosodiad y sied union gyfochrog a'r adeiladwaith presennol a'r ffaith fod y fferm eisoes yn fferm weithredol ni chredir bydd y bwriad yn tarfu'n sylweddol ar fwynderau preswyl a chyffredinol deiliaid cyfagos. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan y cyhoedd yn dilyn y cyfnod hysbysu statudol. I'r perwyl hyn, felly, credir bod y bwriad yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi B23, B33 a D9 o GDUG ynghyd a NCT 6 Cynllunio ar Gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy a Pholisi Cynllunio Cymru, Pennod 13 Cyfyngu ar Risgiau Amgylcheddol a Llygredd a'u Rheoli.

**Materion bioamrywiaeth**

5.4 Mae'r bwriad yn golygu colli oddeutu 60m o glawdd cynhenid er mwyn galluogi lleoli'r sied arfaethedig mor agos ag sy'n bosibl i'r adeiladwaith presennol ond heb ymyrryd a'r llwybr cyhoeddus. Er mwyn digolledu'r clawdd sydd i'w dynnu mae'r cais yn cynnwys codi clawdd newydd o amgylch y sied a gellir sicrhau hyn drwy gynnwys amodau priodol. Er nad oes gan yr Uned Bioamrywiaeth wrthwynebiad i'r cais bydd angen cynnwys amod sy'n cyfyngu'r amser ble ceir chwalu'r clawdd i gyfnod y tu allan i'r cyfnod nythu (Mawrth i Awst). I'r perwyl hyn, felly, credir bod y bwriad yn dderbyniol.

**6. Casgliadau:**

6.1 Gan ystyried yr asesiad uchod ynghyd ag ystyried yr holl faterion perthnasol gan gynnwys polisïau a chyngor cynllunio lleol a chenedlaethol perthnasol credir bod y bwriad yn dderbyniol ar sail egwyddor, graddfa, lleoliad, dyluniad, ffurf, deunyddiau ynghyd a mwynderau preswyl a gweledol.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Caniatáu - amodau:-

1. 5 mlynedd.
2. Yn unol â'r cynlluniau.
3. Diogelu llwybr cyhoeddus rhif 16.
4. Manylion tirweddu/clawdd a'r cyfnod gweithredu.
5. Gohebu'r Awdurdod Cynllunio Lleol pryd y cwblhawyd y datblygiad.
6. Defnyddio'r adeilad ar gyfer pwrpas amaethyddol yn unig.
7. Deunyddiau allanol a lliw i'w cytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.
8. Dim tynnu'r clawdd yn ystod y tymor nythu.